

# Astudiaeth Achos: Botanegydd - Alan

## Beth ydych chi'n ei wneud?

Rwy'n treulio'r rhan fwyaf o'm hamser yn addysgu pobl am yr amgylchedd. Rwy'n gweithio i gorff cadwraeth rhanbarthol mewn parc cenedlaethol, yn tywys plant a myfyrwyr ar deithiau natur a goruchwylio'r ganolfan maes amgylcheddol er mwyn addysgu pobl am natur a'r amgylchedd.

## Beth yw'ch cefndir?

Ar ôl gorffen fy ngradd mewn bioleg, es i fyw i Awstralia ac roeddwn yn lwcus i allu cynorthwyo ymchwil mewn adran fotaneg mewn prifysgol. Rhoddodd hyn y profiad oedd ei angen arnaf i ddilyn fy ngyrfa pan ddychwelais i Loegr.



## Pa nodweddion sydd eu hangen i fod yn llwyddiannus yn eich swydd chi?

Yn fy swydd i, mae'n bwysig defnyddio'r dychymyg am fod yn rhaid i mi ddod o hyd i ffyrdd newydd o hyd o gyfathrebu â phobl am yr amgylchedd mewn ffordd ddiddorol ac effeithiol.

I fotanegwyr sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ymchwil, yn lle gweithio gyda'r cyhoedd fel fi, mae amynedd a dyfalbarhad yn nodweddion hanfodol. Mae angen y nodweddion hyn i astudio materion cymhleth yn fanwl iawn am dymor hir.

## Pa swyddi eraill allech chi ei wneud gan ddefnyddio'r sgiliau o'r swydd hon?

Gallai botanegydd fynd i mewn i unrhyw broffesiwn yn ymwneud â dylunio arbrofol ac ystadegau, er enghraifft, ymchwil feddygol. Mae rheoli planhigion neu gnydau'n bosibilrwydd hefyd. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys rheoli tyweirch ar gyrisiau golff, coedwigaeth, garddwriaeth a ffermio coed.

## Pa newidiadau fydd yn y dyfodol?

Rwy'n credu y bydd y galw am bobl ym maes botaneg yn cynyddu. Mae gwyddor bwyd a chnydau, coedwigaeth a pheirianeg enetig i gyd yn feysydd perthnasol sydd bellach yn ehangu.

Bydd datblygiadau mewn technoleg gyfrifiadurol a pheirianeg enetig hefyd yn effeithio ar fotaneg yn y dyfodol. Mae cyfrifiaduron yn arbed llawer iawn o amser i wyddonwyr trwy gyflymu'r broses o gyfrifo ystadegau a gwaith arall sy'n cymryd llawer o amser.

Yn ogystal, mae peirianeg enetig yn arbed amser trwy ein galluogi ni i fanteisio ar nodweddion planhigion.

Yn lle aros i sawl cenedlaeth o blanhigion dyfu cyn ein bod yn dysgu am ganlyniadau ein harbrofion bridio, gallwch bellach ddewis y nodweddion yr ydych chi eu heisiau, yn seiliedig ar strwythur genetig planhigion.

Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar y ffordd y mae gwyddonwyr yn gweithio yn y dyfodol, a hefyd ar y bwyd a'r meddyginiaethau sydd ar gael ar gyfer pawb.

## Beth yw heriau mwyaf eich swydd?

Yr hyn sydd fwyaf heriol yn fy marn i am fod yn fotanegydd yw ochr weinyddol y swydd.

Rwyf wrth fy modd gyda'r wyddoniaeth, y natur a'r cyfathrebu sy'n rhan o'm gwaith ond rwy'n meddwl bod pethau fel cyllidebu, gwaith pwyllgor ac arfarnu swyddi yn ddiflas. Mae gan hyd yn oed y swyddi gorau eu hagweddau diflas.

## Oes nifer o gyfleoedd i fynd i mewn i'r yrfa hon?

Mae'n fwy cystadleuol nawr na phan nes i raddio. Gall dod o hyd i swydd fod yn anodd, ond mae'n dal yn faes sydd yn tyfu. Rhai pethau i'w hystyried os ydych chi eisiau bod yn fotanegydd yw sgiliau cyfathrebu da a phrofiad mewn

gwaith maes.

Bydd peirianeg enetig yn parhau i fod yn faes mawr, ac yn un da i fynd i mewn iddo. Os ydych yn ystyried swydd fel fy un i, dylech gynyddu eich sgiliau cyfathrebu cymaint â phosibl, a chael profiad o ysgrifennu, radio a theledu.

## Beth ydych chi'n ei hoffi am eich swydd?

Rwy'n hoffi gweithio gyda phobl. Rwy'n gweithio gydag athrawon a myfyrwyr. Rwy'n angerddol iawn am yr amgylchedd, felly rwy'n lwcus i fod mewn sefyllfa i godi ymwybyddiaeth pobl o faterion fel cynhesu byd-eang a glaw asid.

## Beth nad ydych chi'n ei hoffi am eich swydd?

Dydw i ddim yn hoffi gwaith gweinyddol fel creu rhagolygon a rheoli cyllidebau .

## Pa gyngor fyddwch chi'n ei rhoi i rywun sydd â diddordeb yn eich gyrfa chi?

Mae botaneg yn beth da i'w astudio oherwydd mae'n gallu arwain at amrywiaeth o yrfaeod, gan gynnwys gwaith maes yn yr awyr agored, ymchwil mewn labordy neu rôl mewn addysg uwch.

## Diwrnod ym mywyd

8:30 am - 9:00 am

Cyrraedd y swyddfa: edrych ar yr e-bost, mynd trwy'r fasged i mewn, darllen trwy gynigion a'u cymeradwyo neu eu gwrthod.

9:00 am - 10:00 am

Mynychu cyfarfod goruchwyliol: neilltuo tasgau i aelodau o'r staff yn yr orsaf maes, canfod pa waith sydd ar ôl i'w wneud.

10:00 am - 11:00 am

Cyfarfod â chynrychiolwyr o fwrdd yr ysgol i gynllunio teithiau maes i'r ganolfan, cyfarfod â chynrychiolydd cwmni sydd eisiau cynllunio ymweliad grwp corfforaethol am 'daith eco' yn y ganolfan.

11:00 am - 12:00 pm

Siarad ar y ffôn am ymgyrchoedd hyrwyddo'r ganolfan sydd i ddod ar y teledu, radio neu bapur newydd.

12:00 pm - 1:00 pm

Bwyta cinio gyda'r staff, trafod prosiectau yn anffurfiol.

1:00 pm - 2:00 pm

Mynd â grwp o oedolion a phlant ar daith natur: dangos rhywogaethau o blanhigion iddynt ac esbonio'r arbrofion a'r prosiectau sy'n digwydd yn y ganolfan.

2:00 pm - 3:00 pm

Cyfarfod â'r staff i drafod goruchwylio llwybrau ac adeiladau'r safle, cerdded y tu allan gyda'r staff cynnal a chadw i drafod y materion hyn.

3:00 pm - 5:00 pm

Ymchwilio am wybodaeth ar gyfer datblygu rhaglenni, er enghraifft, ar fioddynwarededd - edrych ar y ffordd y gall bodau dynol a busnesau ddynwared systemau naturiol er mwyn gweithredu'n well. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn cynnwys darllen llyfrau ac erthyglau, gwneud nodiadau a gofyn am fwy o wybodaeth gan gydweithwyr.

5:00 pm - 5:30 pm

Edrych ar yr e-bost eto, gorffen tasgau gweinyddol yn y swyddfa.